# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog a gynhaliwyd ar Zoom nos Lun Ionawr 11ed 2021

Presennol: Henry Hughes, Siân Parri, Gareth Jones, Alan Hughes, John Davies, Humphrey Williams.
Ymddiheuriadau:

1. Cadeiriwyd gan Siân Parri ac estynnodd groeso i bawb. Derbyniwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.
2. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Cyfethol Cynghorydd** – Cafwyd cadarnhad fod Chris Brady yn derbyn y gwahoddiad i fod yn aelod o'r Cyngor Cymuned. Cafwyd hefyd ganiataid i gyfethol yr ail Gynghorydd i lenwi'r sedd wag, gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Gwenan Griffith.
   b. **Meddygfa Rhydbach** – Dywedodd y Clerc na dderbyniodd unrhyw ymateb o'r Feddygfa yn dilyn y llythyr a anfonwyd.
   c. **Tlodi Digidol** – Derbyniodd y Clerc lythyr gan Bennaeth Ysgol Botwnnog yn datgan eu gwerthfawrogiad o dderbyn y pedwar gliniadur, gan ddatgan fod y pedwar eisoes wedi eu rhannu i gartrefi disgyblion.
   Ch. **Mwd ar y lon ger mynedfa Ty Newydd Parc, lon rhwng Llaniestyn a Dinas** – Dywedodd y Clerc nad oedd wedi derbyn unrhyw ymateb i'w chwyn i'r Adran Priffyrdd, ond bod cyflwr y ffordd erbyn hyn wedi gwella a bod arwyddion 'ffordd lithrig' wedi eu gosod o boptu'r safle.
3. Gohebiaeth: Doedd dim gohebiaeth

4. Unrhyw fater arall:

a. **Elusen John Edwards –** Eglurodd y Cadeirydd Siân Parri sy’n ymddiriedolwr o’r elusen fod sawl cyfrif banc gan yr elusen, a bod angen dod a’r cyfan at eu gilydd, fel bod trefn a rheolaeth ar yr arian, ond oherwydd oedran y cyfrifon a chymhlethdodau’r amodau a osodwyd wrth greu'r elusennau a hefyd rheolau caeth y banciau (angen tystiolaethau sy’n amhosib eu cyflwyno erbyn hyn) – tybed a fedrai'r Cyngor Cymuned argymell ffordd ymlaen, gan efallai trosglwyddo’r arian i gyfrif y Cyngor. Doedd y Cynghorwyr ddim yn cytuno fod hyn yn addas. Penderfynwyd y byddai’r Cadeirydd yn siarad eto hefo’r ymddiriedolwyr eraill.

Cynhelir y cyfarfod nesar ar Zoom Nos Lun 8ed Chwefror 2021
am 7.30yh